Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn
Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, nos Lun, 9 Ebrill 2018 am **7:30p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Ian Lewney (Cadeirydd), Stephen Beach, Jim Bryan, Robert Owen-Ellis, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Heather Williams ac Ifan Wyn.

82. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

83. DATGAN BUDDIANNAU
Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

84. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2018 yn gywir.

85. MATERION YN CODI
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

86. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO
Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniadau cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych:
02/2018/0075 – Fferm y Castell, Ffordd Llanfair, Rhuthun – Isrannu ac addasiadau i'r annedd sy'n bodoli i ffurfio 2 annedd a gwaith cysylltiedig – Caniatawyd
02/2018/0191 – Tir yn Fron Haul, Stryd y Rhos, Rhuthun – Gwaith ar goed atodedig i Orchymyn Gwarchod Coed cyn Gyngor Dosbarth Glyndwr 1993 – Caniatawyd
02/2018/0102 – Bryn Celyn, Ffordd Llanfair, Rhuthun – Adeiladu estyniad i'r annedd - Caniatawyd

87. CEISIADAU CYNLLUNIO
Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD: *nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn.*
02/2018/0186 – Y Llain Fowlio, Y Ganolfan, Stryd Mwrog, Rhuthun
Adeiladu tŷ clwb.
02/2018/0302 – Bryn Euryn, Stryd y Mynydd, Rhuthun
Adeiladu estyniad i'r annedd.

88. POLISI YMWELIADAU SAFLE
Cyfeiriodd y Clerc at ymholiad diweddar ynghylch a oedd gan Gyngor Tref Rhuthun bolisi neu brotocol ffurfiol o ran ymweliadau safle. Hysbysodd y Clerc ei bod gwirio'r ffeiliau ac nad oedd polisi/protocol o'r fath. Roedd hi hefyd wedi holi aelodau eraill cangen Clwyd Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ac roedd pawb a oedd wedi ymateb yn cadarnhau nad oedd ganddynt bolisi swyddogol ynghylch hyn.
PENDERFYNWYD: *nodi'r sefyllfa.*

89. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Fawrth, 8 Mai 2018 at 6:45pm.*